

Beth yw 'diogelu'?

'Diogelu' yw'r enw ar y camau a gymerwn i hyrwyddo lles plant ac oedolion sydd mewn perygl ac i'w hamddiffyn rhag niwed. Bydd llunio polisïau a gweithdrefnau Diogelu clir yn amddiffyn eich hyfforddwyr chwaraeon a'ch gwirfoddolwyr, ac yn eu cefnogi mewn sefyllfaedd anodd.

Beth ddylai pob clwb ei gael?

- Swyddog Lles Clwb hyfforddedig ar y pwyllgor
- Polisi Diogelu ac Amddiffyn Plant
- Gwiriadau Cofnodion Troseddol (gwiriadau DBS) ar gyfer pob gwirfoddolwyr (16 oed a hŷn)
- Gwirfoddolwyr sydd â hyfforddiant a chymwysterau priodol
- Diwylliant o wrando ar blant ac ymgynghori â nhw
- Cymarebau priodol o ran hyfforddwyr a chwaraewyr
- Codau ymddygiad ar gyfer hyfforddwyr, chwaraewyr a rhieni
- Gweithdrefnau chwythu chwiban clir er mwyn annog gwirfoddolwyr i godi pryderon
- Gweithdrefnau uwchgyfeirio clir pan na chaiff materion eu datrys
- Gwirfoddolwyr sy'n deall bod rhaid iddyn nhw gofnodi ac adrodd am unrhyw ddatgeliadau/pryderon

Mae angen polisïau a gweithdrefnau diogelu ar eich clwb...

i ddiogelu holl aelodau'r clwb a gwirfoddolwyr - yn enwedig plant ac oedolion agored i niwed.

Pwy sydd angen hyfforddiant Diogelu?

- Cymaint o wirfoddolwyr â phosibl o fewn y clwb - mae'n arfer da i bob gwirfoddolwr fynychu'r cwrs 3 awr
- Rydym yn argymhell o leiaf un person i bob tîm/adran

Dylai pob rhiant, aelod, hyfforddwr neu wirfoddolwr fod yn effro i bolisïau a gweithdrefnau diogelu eich clwb a'ch corff llywodraethu.

Awgrymiadau...



1

Cysylltwch â'ch Corff Llywodraethu Cenedlaethol neu Awdurdod Lleol am gymorth

2

Edrychwch ar yr adnoddau ar wefan Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru <https://thecpsu.org.uk/>



3

Rhannwch ein ffeithlun "20 ffordd i wneud chwaraeon yn hwyl i blant" gyda'r holl hyfforddwyr iau

Arfer da

- Rhowch becyn croeso i bob aelod a hyfforddwr newydd sy'n nodi eich ymrwymiad i ddiogelu - diweddarwch hwn bob blwyddyn
- Sicrhewch fod gyda chi gydsyniad rhiant wedi'i lofnodi a manylion cyswllt brys ar gyfer pob aelod iau
- Sicrhewch eich bod chi'n cyfathrebu'n agored ac yn rheolaidd ag aelodau/rhieni bob amser

Chwilio am gwrs Diogelu?

- Rydyn ni'n cynnig cyrsiau SGCP Hyfforddi'r DU fel rhan o'n calendr Chwaraewch Ran. Dewch o hyd i ragor o fanylion yn www.rctcbc.gov.uk/playyourpartcalendar
- Cofiwch: Mae'n well gan Gymdeithas Bêl-droed Cymru ac Undeb Rygbi Cymru i'w clybiau gwblhau cyrsiau chwaraeon-benodol
- Gwneud cais am grant Cist Gymunedol Chwaraeon Cymru? Gallwch wneud cais am gyllid ar gyfer cyrsiau Diogelu